

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



DARLLENWCH  
Mathew 26: 36-56



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 26: 39

## Gwers 1 Marwolaeth Crist – Cusan y Bradwr

Mae'n brofiad annymunol iawn cael eich arestio a'ch cyhuddo o wneud pethau - a chithau'n ddiuog! Yn y Darlleniad o'r Beibl, gwelwn i'r Arglwydd Iesu wynebu profiad o'r fath.

**C** Aildrefnwch y llythrennau i ddarganfod ble cafodd Iesu ei arestio.

### THEGMESANE

**C** Edrychwch yn ôl ar adnod 30 a llanwch y bylchau gyda'r llythrennau sydd ar goll.


Gardd ar lethrau M..... yr  
O..... oedd y lle hwn.

**C** Rhowch linell drwy bob ATEB ANGHYWIR yn y paragraff isod i ddisgrifio beth ddigwyddodd.

Daeth Iesu a'i ddisgyblion i'r ardd. Dywedodd Ef wrthynt am EISTEDD / SEFYLL / GYSGU tra byddai Ef yn mynd i GANU / DDARLLEN / WEDDÏO. Dewisodd PEDR / PHILEMON / PAUL a dau fab SECHAREIAS / SEBEDEUS / SEDECEIA i'w hebrwng Ef ychydig ymhellach. Dechreuodd yr Arglwydd Iesu DRISTÁU / OBEITHIO / LAWENHAU yn fawr.



**C** Edrychwch ar yr Adnod Allweddol a chopiwch y geiriau a weddiodd Iesu.



2

**C** Ar y dwylo sydd ynghyd mewn gweddi, ysgrifennwch sawl gwaith y gweddiodd yr Arglwydd Iesu'r geiriau hyn.



1

Yn Ei weddi, soniodd yr Arglwydd Iesu am "y cwpan hwn". Roedd Ef yn cyfeirio at yr holl ddiodefaint oedd yn Ei aros, gan Ei fod yn mynd i farw ar y groes dros ein pechodau ni. Roedd yn barod i ddioddef hyn i gyd oherwydd gwyddai Ef nad oedd unrhyw ffordd arall i ni gael ein hachub.


**C** Llanwch y geiriau yn y bylchau a rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair. Maent wedi eu cuddio i fyny, i lawr, ar draws, yn groeslinol, yn ôl ac ymlaen.

1. Bradychwyd Iesu gan y dyn hwn.....
2. Anfonwyd y dyrfa gan y prif offeiriaid a'r .....
3. Roedd y dyrfa'n cario .....
4. Dyma beth roddodd y bradychwr i Iesu .....
5. Galwodd Iesu'r bradychwr yn .....
6. Torrwyd .....un o'r gweision. ....
7. Gallai Iesu fod wedi galw ar fwy na 12 lleng/byddin o'r rhain i'w helpu.....
8. Roedd Iesu wedi bod yn dysgu yn y ..... bob dydd.

F	R	H	C	L	U	S	T		
C	L	E	D	Y	F	A	U		
U	F	N	F	A	N	G	D	G	
S	I	U	R	Y	K	W	H		
A	L	R	L	L	K	J	D		
N	A	I	G	M	L	S	H		
C	H	O	A	P	E	B	T	A	
N	A	I	G	D	L	S	H		
F	F	E	D	N	I	R	F	F	G

8

Dywedodd yr Arglwydd Iesu ddwywaith wrth y dyrfa bod y proffwydi, oedd yn byw gannoedd o flynyddoedd ynghynt, wedi ysgrifennu am yr holl bethau roedden nhw'n ei wneud lldo nawr.



1

(Edrychwch ar adnodau 54 a 56).

**C** Yn EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch beth wnaeth y

1

disgyblion pan gafodd yr Arglwydd Iesu Ei arestio.



DARLLENWCH  
Mathew 27: 1, 2,  
11-31




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 27: 22

## Gwers 2 Marwolaeth Crist – Dewis y Rhaglaw

Wedi i'r Arglwydd Iesu gael Ei arestio a'i roi ar brawf gerbron awdurdodau'r Iddewon, aethpwyd ag Ef at y Rhaglaw Rhufeinig am brawf arall.

**C** Pwy oedd y Rhaglaw?

**C** Beth oedd y cwestiwn cyntaf ofynnodd y Rhaglaw i Iesu? Beth oedd Ei ateb?

**C** YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch frawddeg i ddangos beth oedd ymateb y Rhaglaw i'r ffaith na ddywedodd Iesu unrhyw beth pan gafodd Ei gyhuddo.

Cynhaliwyd prawf yr Arglwydd Iesu yn ystod adeg y Pasg, sef gwledd neu wyl Iddewig fyddai'n cael ei chynnal bob blwyddyn.

**C** Atebwch **GWIR** neu **ANWIR** i'r canlynol:-

Byddai'r Rhaglaw fel arfer yn rhyddhau un carcharor adeg y Pasg. ....

Barabbas oedd y Prif Offeiriad ar y pryd. ....

Cynigiodd Pilat ryddhau naill ai Iesu neu Barabbas. ....


Dywedodd arweinwyr yr Iddewon wrth y dyrfa am ofyn am ryddhau Iesu. ....

Galwodd y dyrfa am i Iesu gael Ei groeshoelio. ....

Mor wahanol yn wir oedd y ddau garcharor hyn! Roedd Barabbas yn arweinydd 'gang'- ac yn un a ddechreuodd reiat yn ogystal â lladd pobl! Ar y llaw arall, Mab sanctaidd a dibechod Duw Ei Hun oedd yr Arglwydd Iesu a dim ond daioni a wnaethai Ef erioed. Roedd yn rhaid i Pilat wneud penderfyniad anodd. Ddylai e ryddhau dyn euog a dedfrydu i farwolaeth Un roedd e'n gwybod yn iawn Ei fod yn gwbl ddiuog?

**C** Wrth i'r dyrfa weiddi am i Barabbas gael ei ryddhau, beth oedd cwestiwn Pilat i'r bobl a beth oedd eu hateb? Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol fel ateb.

Roedd yn dyrfa'n mynd yn fwy ac yn fwy aflonydd; roedd reiat ar fin dechrau. Beth ddylai Pilat wneud? Gwyddai nad oedd yr Arglwydd Iesu'n euog ond roedd arno ofn gwneud yr hyn a wyddai oedd yn iawn, a hynny oherwydd y dyrfa!



**C** Beth wnaeth Pilat i ddangos nad oedd am wneud dim mwy ag Iesu?



**C** YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch beth wnaeth Pilat â'r ddau garcharor yn y diwedd.


Barabbas
Iesu



Aethpwyd ag Iesu wedyn i balas y Rhaglaw.

## CROES O EIRIAU

Cewch weld beth ddigwyddodd yno trwy roi cylch o gwmpas yr atebion i'r cliwiau ar y **GROES O EIRIAU**. Mae'r geiriau wedi eu cuddio i fyny, i lawr ac ar draws.



1. Dododd y milwyr glogyn lliw .... am Iesu
2. Rhoddwyd hon yn llaw dde Iesu
3. Gwnaethant goron o'r rhain.
4. '..... yr Iddewon' oedd eu henw Amdano.
5. Buon nhw'n ..... ar Iesu.
6. Curwyd .... Iesu ganddynt.



Heddiw, rydym ninnau'n wynebu dewis tebyg i un Pilat. Rhaid i bob un ohonom benderfynu beth i'w wneud gyda'r Arglwydd Iesu. Gallwn naill ai Ei dderbyn fel ein Harglwydd a'n Gwaredwr, neu wrthod Ei groesawu i mewn i'n calonnau a'n bywydau. Gadawodd Pilat i bwysau o du'r dyrfa ddylanwadu ar ei benderfyniad. Rhaid i ninnau hefyd fod yn ofalus nad ydym yn cael ein harwain ar gyfeiliorn gan eraill a allai, o bosibl, ein harwain i wneud y penderfyniad anghywir!

**C** Ysgrifennwch y geiriau yn Ioan 3:36 a meddyliwch yn ofalus am y dewisiadau sydd ar gael i chi.






**DARLLENWCH**  
Marc 15: 37, 42-47  
Marc 16: 1-8




**ADNOD  
ALLWEDDOL**  
I Corinthiaid  
15: 3 a 4

### Gwers 3 Marwolaeth Crist – Bedd y Dyn Cyfoethog



Bu farw'r Arglwydd Iesu tua chwe awr wedi Iddo gael Ei groeshoelio. Ddylen ni fyth anghofio Iddo roi Ei fywyd dros bob un ohonom, a chymryd y gosb am ein pechodau ni. Yr awdurdodau Rhufeinig, fel arfer, oedd yn gyfrifol am gladdu pobl oedd wedi'u croeshoelio, ond roedd gan Dduw gynlluniau eraill ar gyfer yr Arglwydd Iesu! Roedd ganddo Ef eisoes berson i wneud tasg arbennig iawn Drosto!



**C** Cwblhewch y Ffeil Ffeithiau drwy lanw'r manylion am y person hwn.

<i>Ffeil</i>	<i>Ffeithiau</i>
Beth oedd ei enw? .....	Pan fu farw Iesu, at bwy aeth e? .....
O ba dref roedd e'n dod? .....	Gofynnodd am beth? ..... .....
Beth oedd ei waith? .....	

5

Roedd Joseff - dyn cyfoethog - yn aelod o'r Cyngor Iddewig fuodd yn cynllunio marwolaeth Iesu, ond doedd e ddim yn cytuno â'u cynllun creulon. (Edrychwch ar Luc 23: 50 a 51)

**C** **DARLLENWCH Mathew 27:57 ac ysgrifennwch frawddeg i awgrymu rheswm pam nad oedd e'n cytuno.**

.....  
.....

1


Joseff oedd y dyn roedd Duw wedi ei ddewis a'i baratoi i ofalu am gorff Iesu, ar yr union funud honno! Gallwch chithau, hefyd, fod yn ddefnyddiol i Dduw, os ydych yn caru'r Arglwydd Iesu, fel y gwnâi Joseff. Defnyddiodd Joseff ei safle a'i gyfoeth i gyflawni ewyllys Duw.

**C** **Pan ofynnodd Joseff am gorff Iesu, beth oedd ymateb CYN TAF Pilat?**

.....

1

**C** Cwblhewch y Geiriau hyn:



C \_ \_ \_ \_ \_  
 \_ R \_ \_ \_  
 \_ \_ O \_  
 \_ E \_ \_ \_ \_ \_  
 S \_ \_ \_ \_

1. Cadarnhaodd y dyn hwn fod Iesu wedi marw. (Swyddog milwrol gyda dros 100 o ddynion dan ei ofal)
2. Roedd y bedd wedi ei naddu o hwn
3. Pan gyrhaeddodd y gwagedd, roedd y garreg wedi ei threiglo a'r bedd ar \_ \_ \_ \_ \_.
4. Daeth y gwagedd â'r rhain i'r bedd.
5. Enw ar 'ddiwrnod sanctaidd' neu 'ddydd gorffwys' yr Iddewon.

5




Gorffennodd Joseff ei dasg, ac aeth i ffwrdd, heb wybod am y digwyddiad mawr oedd i ddigwydd tridiau (3 diwrnod) yn ddiweddarach.

**C** Er mwyn darganfod beth ddigwyddodd, newidiwch bob gair sydd mewn PRIF LYTHRENAU i air sy'n groes iddo. (Mae'r cyntaf wedi ei wneud drosoch)

Cyrhaeddodd y DYNION ...*MERCHED*... yn HWYR..... iawn yn y NOS ..... ar ddiwrnod OLAF .....yr wythnos, a gwelsant fod y garreg FECHAN ..... wedi ei threiglo i ffwrdd, a bod yr Arglwydd Iesu yn FARW .....

5

**C** Uwchben pob llun, ysgrifennwch adran gywir yr Adnodau Allweddol.

3

Mae blynyddoedd lawer wedi mynd heibio ers i'r pethau hyn ddigwydd. Eto i gyd, mae'r Beibl yn ein dysgu eu bod yn bwysig iawn i ni HEDDIW. Dim ond trwy farwolaeth yr Arglwydd Iesu y bydd modd i ni gael maddeuant am ein pechodau, a dod yn blant i Dduw. Ydych chi'n bersonol wedi ymddiried ynddo Ef fel eich Gwarddwr, ac wedi Ei dderbyn yn Arglwydd ar eich bywyd?



DARLLENWCH  
Luc 24: 13-35



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Luc 24: 26


## Gwers 4 Marwolaeth Crist – Geiriau'r Dieithryn

Mae'n beth cyffrous iawn bob tro cyfarfod â ffrind nad ydych chi wedi ei weld/ei gweld ers amser hir! Yn ein Darlleniad o'r Beibl, cafodd y ddau ffrind oedd yn cerdded adref brofiad mwy cynhyrfus fyth, oherwydd dyma nhw'n cwrdd â Rhywun oedd, yn eu tyb nhw, wedi marw! Fe newidiodd hynny bopeth yn eu hanes!

### GRID GEIRIAU

Cwblhewch y Grid Geiriau.

1. Roedden nhw'n teithio i'r lle hwn.
2. Enw un o'r dynion
3. Yr enw am dref fechan.
4. Roedden nhw'n teithio oddi yma.
5. Gelwid Ein Harglwydd yn aml yn "Iesu o ...".



**C** Edrychwch ar y Darlleniad o'r Beibl er mwyn canfod tua sawl cilomedr roedden nhw wedi cerdded adref.

**C** Rhowch ✓ wrth ymyl y brawddegau cywir a X wrth ymyl y rhai anghywir.

Nesaodd Iesu atynt wrth iddyn nhw gerdded.

Dyma nhw'n Ei adnabod ar unwaith.

Gofynnodd Iesu iddyn nhw am beth roedden nhw'n siarad.

Dywedon nhw'r hanes Wrtho am y gwragedd yn canfod y bedd gwag.



Wedi iddyn nhw orffen siarad, dywedodd Iesu wrthynt na ddylen nhw'n wir synnu i'r Iesu orfod dioddef a marw. Pe baen nhw wedi deall yr Ysgrifthurau (ysgrifeniadau sanctaidd yr Hen Destament) yn iawn fe fydden nhw'n gwybod bod hynny'n mynd i ddigwydd!

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol




Aeth Iesu ati wedyn i'w helpu i ddeall geiriau'r Hen Destament. (Doedd y Testament Newydd ddim wedi ei ysgrifennu bryd hyn!)



**C** Gosodwch y geiriau hyn yn y bylchau cywir yn y paragraff sy'n dilyn.

*Ef Ei Hun Ysgrythurau Moses proffwydi*

Dechreuodd gyda llyfrau ....., ac yna esboniodd holl lyfrau'r .....

Dywedodd wrthynt am y pethau oedd wedi eu

hysgrifennu yn yr ..... amdano .....

4

Dyna i chi astudiaeth Feiblaidd ryfeddol gawson nhw! Cyn hir, cyraeddasant ben eu taith. Gofynnodd y ddau i'r Dieithryn ddod i mewn i'w cartref.

**C** Darllenwch adnodau 30 a 31, ac YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch beth ddigwyddodd yn eu cartref.


2

Ar ôl darganfod fod Iesu wedi atgyfodi o'r bedd, roedd y ddau gyfaill wedi cyffroi gymaint nes iddyn nhw godi ar unwaith a dechrau ar daith arall.

**C** Atebwch y cwestiynau hyn drwy ad-drefnu'r llythrennau.

I ble'r aethon nhw? WEJRS LMEA


Sawl un o'r apostolion oedd yno? NU RA GEDD

Sawl cilomedr oedden nhw wedi eu cerdded i gyd y

diwrnod hwnnw? UDA EGDD ADU


3

Roedd y ffaith fod yr Arglwydd Iesu wedi ATGYFODI o'r bedd yn gwneud byd o wahaniaeth i Cleopas a'i gyfaill. Trowyd eu tristwch yn llawenydd, a'u hamheuron yn sicrwydd. Gallwn ninnau, hefyd, rannu yn llawenydd Ei Atgyfodiad, a gwybod i sicrwydd Ei fod Ef yn "Fyw byth bythoedd" (Datguddiad 1:18).



**Darllenwch Rhufeiniaid 10:9, a gwnewch chithau, drosoch eich hun, beth mae'r geiriau yn ei ddweud!**

cyfanswm	
----------	--

Marciaiu  
[i'w nodi gan yr athro]


Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org) Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120